# *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):

## Dosbarthu 1 – Cael pobl i weld y ffilmm


## Tasg agoriadol

**Mewn parau, ysgrifennwch yn gyflym y ffyrdd rydych chi'n dod i wybod am ffilm sydd newydd ei rhyddhau.**

# *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Dosbarthu 1 – Cael pobl i weld y ffilmm

## Dadansoddi rhaghysbyseb

**Un o'r ffyrdd mwyaf cyffredin y mae cynulleidfaoedd yn dod i wybod am ffilm yw trwy weld y rhaghysbyseb yn y sinema. Edrychwch ar y rhaghysbyseb ar gyfer y ffilm *The World's End* (Wright, 2013).**




- **Beth yw eich argraff gyntaf?**
- **Sut mae'n ceisio gwerthu'r ffilm?**


**Gwyliwch y rhaghysbyseb eto.**

- **Pa dystiolaeth sydd i awgrymu pwy yw'r brif gynulleidfa ar gyfer y ffilm hon?**
- **Ydych chi'n credu bod y rhaghysbyseb yn gweithio'n dda o ran rhoi awgrym o beth i'w ddisgwyl yn y ffilm?**
- **Cyn pa fathau o ffilmiau y byddai'r rhaghysbyseb hon yn cael ei dangos? Pa mor bwysig yw'r ffactor hon wrth ddenu'r math cywir o gynulleidfa?**
- **Ydych chi'n credu bod cynulleidfa eilaidd ar gyfer y ffilm hon? Os felly, pwy yw'r gynulleidfa hon a sut mae'r rhaghysbyseb yn apelio ati?**

## Dadansoddi poster

**Edrychwch ar y prif boster hwn ar gyfer *The World's End*.**


- **Sut mae'r poster yn gwerthu'r ffilm i'w phrif gynulleidfa a'i chynulleidfa eilaidd?**
- **Pa ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio?**
- **Ydych chi'n credu ei fod yn llwyddiannus wrth wneud hyn?**



# *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Dosbarthu 1 – Cael pobl i weld y ffilmm

## Gwaith dilynol

Edrychwch ar y **poster rhagflas** canlynol ar gyfer *The World's End*:




– Pa mor effeithiol yw'r poster hwn wrth sefydlu ffactor disgwyl yn y brif gynulleidfa?

Edrychwch ar **hysbyseb teledu UDA** ar gyfer y ffilm:

hysbyseb teledu UDA

– Pa ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio yma i werthu'r ffilm i gynulleidfa yn America?
– A fyddai'r rhain yn gweithio ar gyfer cynulleidfa ym Mhrydain hefyd? Rhowch fanylion.